trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 7
Ionawr 2009

Cyhoeddi llyfr John !

Nod y llyfr hwn yw darparu adnodd i chi allu cynnal grŵp ieuenctid Cristnogol ar gyfer ieuenctid sy'n mynychu eglwysi yn ogystal ag unigolion nad ydynt yn mynychu. Mae'r sesiynau'n deillio o brofiad John a Rachel Settatree yn arwain grwpiau ieuenctid a chynnal sesiynau mewn ysgolion gyda Trobwynt ym Mhen Llŷn. Y mae dau aelod o'u grwpiau, sef Garreth Frank a Jake Meadows hefyd wedi helpu gyda'r broses olygu, gan awgrymu a sgrinio Gemau.

Aled Davies yn cyflwyno'r llyfr i John

Mae Llyfr 1 yn darparu cyflwyniad i'r ffydd Gristnogol, gyda phob sesiwn yn delio â gwirioneddau sylfaenol Cristnogol. Felly, ceir trosolwg syfaenol o'r Efengyl o dan y teitl 'Stori Duw' er mwyn darparu darlun mwy cyflawn o'r Beibl. Ceir cyfres ar Fywyd Moses a'r 10 Gorchymyn, sy'n ceisio ateb y cwestiynau – Pwy yw Duw?, Pwy ydw i? a Pham ydw i yma? Yn olaf, ceir cyfres ar fywyd Pedr sy'n bwrw golwg ar gael perthynas â Iesu.

Rydym hefyd wedi cynnwys adran gemau gyda dros 20 o gemau y gellir eu defnyddio dro ar ôl tro. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cynnwys nifer o syniadau am nosweithiau ieuenctid gwahanol a fu'n llwyddiannus a phoblogaidd iawn mewn nifer o grwpiau ieuenctid amrywiol. Gweler hefyd ychydig o ddramâu y gellir eu defnyddio fel rhan o sesiwn neu o fewn gwasanaeth eglwysig.

Gellir archebu'r llyfr drwy eich siop lyfrau lleol neu drwy gysylltu âg Aled Davies 01766 819120.

Gweddiwn y bydd Duw yn defnyddio'r llyfr er lledaeniad y newyddion da am Iesu Grist.

Gwersi Nadolig: Glan y Môr ac Eifionydd

Cafwyd pythefnos brysur iawn ddiwedd tymor y Nadolig yn cynnal gwersi Nadolig gyda grwpiau AG Blwyddyn 7 yn Ysgolion Glan y Môr ac Eifionydd. Nod y gwersi oedd ateb y cwestiwn 'A oes angen Arwr ar y byd?' Bu'n gyfle i edrych ar ymateb Duw i ddioddefaint, gan arwain at neges y Nadolig – Immanuel – mae Duw gyda ni. Roedd y gwersi'n cynnwys gêm o '*Family Furtunes'*, clipiau o'r ffilmiau '*Superman Returns'* a '*Charlie Brown's Christmas'* a chyflwyniadau cerddorol. Cafwyd cyfle arbennig i drafod, a'r hyn a oedd yn hynod galonogol oedd bod yr ieuenctid wedi llwyr ymroi i'r gwersi ac wedi eu mwynhau.

Gweddïwn: Am gyfleoedd i barhau i adeiladu perthynas dda gyda'r ysgolion hyn.

Diwrnod Hyfforddi Arweinwyr Ieuenctid yng Ngholeg y Bala

Yn ystod Diwrnod Hyfforddi Arweinwyr Ieuenctid blynyddol Coleg y Bala eleni bu Gwyn Rhydderch (Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr), John a Rachel yn cynnal seminar ynglŷn â sefydlu grŵp ieuenctid. Yn ystod y dydd cafwyd cyfle i lansio'r llyfr adnoddau newydd John.

Gweddïwn y bydd yr unigolion rheiny nad ydynt eto yn rhan o gynnal grwpiau neu newydd ddechrau rhedeg grwpiau ieuenctid, yn derbyn cymorth ac ysbrydoliaeth yn eu gwaith!

Partïon Nadolig: Llithfaen, Morfa a'r Ffôr

Mae'r sesiynau CIC diwethaf a gynhaliwyd gyda chriw Y Ffôr, Morfa Nefyn a Llithfaen yn teimlo fel amser maith yn ôl bellach. Bu grŵp Llithfaen yn bwyta allan yn Nhafarn y Fic, Llithfaen. Roedd hi'n noson hyfryd ac yn gyfle gwych i ddod i adnabod pawb mewn awyrgylch gwahanol.

Cynhaliodd CIC Y Ffôr a Morfa Nefyn barti ar y cyd yn y festri ym Morfa Nefyn. Roedd hi'n noson wych gyda gemau ar thema'r Nadolig a bwyd parti, gan gynnwys Pitsa's a sglodion o fwyty'r Cliffs. Cyfranodd rieni'r ieuenctud ddetholiad o bwdinau blasus, ond ni lwyddwyd i'w bwyta i gyd!

Ar ddiwedd y noson cafwyd sgwrs fer gan John ynglŷn â'r rhodd sydd ei wir angen arnom. Roedd hi'n arbennig iawn gallu cyflwyno copi o **'Llwybrau'** (cylchgrawn newydd Cymraeg EMW i ieuenctid) i bob person ifanc a oedd yn bresennol.



Am fwy o wybodaeth am Llwybrau ffôniwch 01656 655886 neu ewch i'r wefan *http://www.mudiad-efengylaidd.org/gweinidogaethau/gwasg-bryntirion/llwybrau/cy/*

Gweddïwn: Y bydd yr ieuenctid sy'n rhan o'r clybiau hyn yn dychwelyd yn frwdfrydig ynglŷn â'r rhaglen ac y byddant yn tyfu yn eu ffydd.

Cwrs Arweinwyr Ieuenctid yn seiliedig ar y Beibl

Mae mis Ionawr yn fis o baratoi yng nghanol blwyddyn ysgol brysur – er y byddwn hefyd yn dychwelyd at ein gwaith arferol a'r clybiau. Bob blwyddyn, ers iddi fod yn gweithio i Trobwynt, bu Rachel yn mynychu'r Cwrs Arweinwyr Ieuenctid yn seiliedig ar y Beibl sy'n cael ei gynnal gan y 'Good Book Company'. Ymunodd John â hi yno y llynedd ac mae'r ddau o'r farn ei fod yn amser defnyddiol iawn i adlewyrchu ar y gwaith a wnânt ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Os am fwy o fanylion am y gynhadledd ewch i: *http://www.thegoodbook.co.uk/bookings/moreinfo?id=20*

Gweddïwn: Y bydd cwrs eleni yn gyfle gwych unwaith eto i John a Rachel dderbyn cefnogaeth ac ysbrydoliaeth newydd.

Beth am ddod i

GYFARFOD GWEDDI TROBWYNT

Ionawr 9
2.00
Tabor
Llithfaen

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202